

Disgrifiad Swydd



Côd Gwerthuso'r Swydd	
-----------------------	--

Teitl y Swydd	Cymrodoriaeth Ymchwil Fferylliaeth Gymunedol
Ysgol/Cyfarwyddiaeth	Yr Ysgol Fferylliaeth a'r Gwyddorau Fferyllol, Prifysgol Caerdydd
Gradd y Swydd	
Llwybr Gyrfaol	Ymchwil

Diben y Swydd

Bydd deiliad y swydd yn gweithio fel Cymrawd Ymchwil Fferylliaeth Gymunedol yn yr Ysgol Fferylliaeth a'r Gwyddorau Fferyllol ym Mhrifysgol Caerdydd. Diben y swydd yw cryfhau capasiti ac arweinyddiaeth ar gyfer sefydlu a chyflawni ymchwil fasnachol ac academiaidd mewn fferyllfeydd cymunedol, gan gefnogi blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Bydd deiliad y swydd yn cyfrannu at ddatblygiad modelau cynaliadwy y gellir eu hehangu ar gyfer cyflawni ymchwil mewn fferyllfeydd cymunedol, gan gydweithio â fferyllfeydd, practisau meddygon teulu, Clystyrau Gofal Sylfaenol, sefydliadau GIG Cymru, rhwydweithiau ymchwil, a phartneriaid yn y diwydiant. Mae'r rôl yn cynnwys amser a neilltuir, mentoriaeth strwythuredig a datblygiad pwrpasol i gefnogi arweinyddiaeth mewn fferylliaeth gymunedol sy'n weithgar ym maes ymchwil yn y dyfodol.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Cyflawni Ymchwil - Cynnig ôl-lenwi i gefnogi fferyllfeydd cymunedol i feithrin y sgiliau a'r seilwaith angenrheidiol i gyflwyno ymchwil fasnachol ac academiaidd, hyd at gyfanswm o 2 ddiwrnod yr wythnos - Gweithio gyda thimau ymchwil amlddisgyblaethol i gefnogi'r broses recriwtio, ymweliadau astudio, cadw, ansawdd data a chyflwyniad amserol o astudiaethau. - Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu modelau cyflwyno arloesol sy'n lleihau rhwystrau at gymryd rhan mewn ymchwil fasnachol ac academiaidd mewn fferylliaeth gymunedol Partneriaeth ac Ymgysylltu - Ymgysylltu â fferyllfeydd cymunedol, Clystyrau Gofal Sylfaenol a gwasanaethau cymunedol i feithrin parodrwydd a gallu ymchwil - Gweithio ar y cyd â phartneriaid yn y diwydiant, sefydliadau GIG Cymru a chyrrff seilwaith ymchwil i gefnogi'r gwaith o gyflwyno treialon masnachol yn effeithlon - Bod yn eiriolwr practis dros ymchwil fasnachol ac academiaidd mewn fferyllfeydd cymunedol, gan hyrwyddo'r gwerth i gleifion, fferyllfeydd a'r system iechyd ehangach Meithrin Gallu ac Arweinyddiaeth - Cyfrannu at weithgareddau sy'n meithrin gallu er mwyn cynyddu cysylltiad fferylliaeth gymunedol ag ymchwil fasnachol ac academiaidd, gan gynnwys mentora a chymorth anffurfiol i dimau fferyllfeydd - Cefnogi'r gwaith o ddatblygu offer, canllawiau a phrosesau sy'n galluogi'r broses o gyflwyno ymchwil yn gynaliadwy mewn fferyllfeydd cymunedol - Datblygu sgiliau arwain personol mewn cyflwyno ymchwil drwy fentoriaeth a hyfforddiant strwythuredig Cyfraniad Academiaidd a Datblygu Proffesiynol - Cyfrannu at allbynnau academiaidd sy'n cyd-fynd â'r rhaglen, gan gynnwys adroddiadau, cyflwyniadau, cyhoeddiadau a datblygu cyllid - Cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgu, hyfforddi neu ledaenu perthnasol yn yr Ysgol Fferylliaeth a'r Gwyddorau Fferyllol - Cydymffurfio ag Ymarfer Clinigol Da ac ymgymryd â datblygu proffesiynol parhaus sy'n gysylltiedig â chyflawni ymchwil a llywodraethu ymchwil Llywodraethu ac Ymarfer Proffesiynol - Cynnal cymhwysedd clinigol a safonau proffesiynol priodol fel fferyllfeydd cymunedol sy'n ymarfer, fel y cytunwyd yn y rôl - Cyfrannu at ddiwylliant ymchwil cadarnhaol, cynhwysol a chydweithredol ym Mhrifysgol Caerdydd a

Manyleb yr Unigolyn

Meini Prawf Hanfodol

Cymwysterau a Statws Proffesiynol

- Gradd mewn fferylliaeth (MPharm neu gyfwerth) ac Cofrestriad llawn gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol ac ailddilysu parhaus ac wedi achredu i gynnig gwasanaethau drwy Ddewis Fferyllfa

Profiad proffesiynol

- Yn ymarfer ar hyn o bryd fel fferylllydd cymunedol ym maes gofal sylfaenol yng Nghymru, gyda dealltwriaeth glir o strwythur gofal sylfaenol ledled GIG Cymru

Diddordeb Ymchwil ac Addasrwydd

- Diddordeb amlwg mewn ymchwil glinigol neu gyflawni ymchwil mewn lleoliadau gofal sylfaenol, yn enwedig mewn fferylliaeth gymunedol
- Deall pwysigrwydd treialon clinigol masnachol i fynediad cleifion, arloesi a chynaliadwydd y system iechyd
- Parodrwydd i ddatblygu arbenigedd mewn methodoleg, rheoleiddio a llywodraethu treialon clinigol

Sgiliau a Chymwyseddau

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i ymgysylltu â fferyllfeydd, timau amlddisgyblaethol a phartneriaid allanol
- Y gallu i weithio ar y cyd ar draws amgylcheddau academiaidd, y GIG a'r diwydiant
- Sgiliau trefnu rhagorol a'r gallu i reoli blaenoriaethau sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Sgiliau dadansoddi a datrys problemau, yn enwedig wrth fynd i'r afael â rhwystrau wrth gyflawni ymchwil mewn fferyllfeydd cymunedol

Gwerthoedd ac Ymddygiad

- Ymrwymiad i wella mynediad cleifion at ymchwil ac arloesi mewn fferylliaeth gymunedol ac Brwdfrydedd dros feithrin galluedd a datblygu fferylliaeth gymunedol sy'n weithgar ym maes ymchwil

Meini Prawf Dymunol

Profiad Ymchwil

- Profiad blaenorol ym maes ymchwil academiaidd, gan gynnwys astudiaethau masnachol neu anfasnachol
- Profiad o recriwtio cleifion i astudiaethau neu gefnogi'r gwaith o gyflawni ymchwil mewn fferylliaeth gymunedol
- Ymwybyddiaeth o egwyddorion Arfer Clinigol Da
- Profiad o weithio gyda rhwydweithiau ymchwil neu seilwaith ymchwil y GIG

Arall

- Wedi cofrestru gyda'r Coleg Brenhinol Fferylliaeth
- Wedi achredu'n rhagnodwr annibynnol

Gwybodaeth Ychwanegol